# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar Fawrth 1af, 2010 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W Knightly | Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy |
| Y Cyng. D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. A D Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. G O Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL:

C Everett (Clerc); P Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Halstead (Pennaeth Gwasanaethau Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); Joanne West (KPMG); G Jones (Rheolwr Cefnogaeth y Grŵp Gweithredol); J Brown (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

Ffoniodd y Cyng. D Barratt ddydd Gwener, y 5ed o Fawrth i ymddiheuro am golli'r cyfarfod. Bu i ffwrdd ar wyliau rhwng y 18fed o Chwefror a'r 4ydd o Fawrth, ac nid oedd wedi sylweddoli bod cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod.

1 ENWEBU CADEIRYDD

1.1 Gan fod y Cadeirydd wedi rhoi ymddiheuriadau am y cyfarfod, a bod y Cyng. Barratt hefyd yn absennol, enwebwyd y Cyng. M Griffith yn Gadeirydd y cyfarfod.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Dim.

3 COFNODION

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain o Dachwedd 2009 yn gofnod cywir.

4 MATERION YN CODI

4.1 4.7 - Datganiad Llywodraethu Blynyddol - bwriad y datganiad hwn yw disodli'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol a gyflwynir gyda'r Datganiad o Gyfrifon. Yn Lloegr, mae gofyn am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â Rheoliadau, fodd bynnag nid yw'r Rheoliadau a'r canllawiau wedi

cael eu diwygio yng Nghymru. Mae CIPFA yn argymell y dylai Awdurdodau Lleol lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel ffurf ar arferion da a fydd yn rhaid ei wneud mewn blynyddoedd i ddod, ac ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub, bydd Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn ddigon. **Sandra Forrest i drafod ymhellach gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân. Nodwyd y diweddariad gan y Pwyllgor Archwilio.**

4.2 5.5 – Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol – unwaith y bydd mantolen drosiannol wedi ei llunio, bydd yn cael ei chylchredeg i aelodau'r Pwyllgor Safonau ynghyd â diweddariad. **Nodwyd y diweddariad gan y Pwyllgor Archwilio.**

5 HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL AR REOLI'R TRYSORLYS

5.1 Roedd yr hyfforddiant yn ofynnol i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn dilyn adroddiad y Comisiwn Archwilio, sef *Risk and Return*, sy'n argymell y canlynol:

- Hyfforddiant ar gyfer yr aelodau etholedig hynny sy'n atebol am stiwardio arian cyhoeddus fel eu bod, ar y lleiaf, yn gallu craffu'n effeithiol a bod yn atebol am swyddogaeth rheoli'r trysorlys:
  - Aelod etholedig gyda chyfrifoldeb am bob agwedd ar Reoli'r Trysorlys
  - Briffiadau rheolaidd i aelodau etholedig eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth reolaidd
  - Cynnwys Rheoli'r Trysorlys yn y rhaglen flynyddol o archwilio mewnol
  - Adrodd rheolaidd i'r Aelodau – cyn, yn ystod, ac yn dilyn blynyddoedd ariannol
  - Trefniadau ar gyfer llunio gwybodaeth reolaethol – yn ymdrin â sicrwydd a hylifedd, yn hytrach nag arenillion
  - Cynnal a chadw rhestr gyfredol o fuddsoddiadau
- Mae'n annhebygol mai cyfarfodydd llawn o'r Awdurdod yw'r lle gorau i edrych yn fanwl ar hyn … felly dylai cyrff eraill chwarae rhan fwy amlwg, e.e. y Pwyllgor Archwilio (*Mae hyn yn unol â'r bwriad ar gyfer Cod Ymarfer ar Reoli'r Trysorlys).*

5.2 Roedd strwythur y cyflwyniad fel a ganlyn:

- Rhan 1 – Strwythur Rheoleiddiol Rheoli'r Trysorlys
- Rhan 2 – Trosolwg o Strategaeth y Trysorlys
- Rhan 3 – Ystyriaethau o ran Dyledion
- Rhan 4 – Ystyriaethau o ran Buddsoddiadau
- Rhan 5 – Yr Amgylchedd Economaidd

5.3 Mae'r prif rolau ar gyfer y pwyllgor archwilio fel a ganlyn:

- cymeradwyo'r canlynol:
  - Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
  - Dangosyddion Darbodus
  - Strategaeth Buddsoddi
  - Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw
- mwy o ystyriaeth i broffil risg
- craffu a chymeradwyo
- sicrhau bod y polisïau'n gynhwysfawr, yn drylwyr ac yn cael eu cymhwyso
- herio'r Awdurdod i sicrhau bod ei ragfynegiadau am y gyllideb yn rhesymol o'u cymharu â'r data.

5.4 I ateb cwestiwn gan un o'r aelodau ynglŷn â'r rhaglen gyfalaf, cadarnhaodd y Clerc y byddai'r rhaglen gyfalaf yn cael ei monitro gan y Panel Gweithredol ond y byddai'r adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio at ddiben sicrwydd.

5.5 Petai mater difrifol yn codi, cadarnhawyd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael gwybod ar yr un pryd â Chadeirydd yr Awdurdod.

5.6 **Nodwyd yr wybodaeth gan yr Aelodau, a diolchwyd i Sandra Forrester am y cyflwyniad.**

6 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH BUDDSODDI A PHOLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

6.1 Diben yr adroddiad oedd cyflwyno i'r Aelodau y Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2010/11, a rhoi gwybod i'r Aelodau am y newidiadau angenrheidiol i'r Rheoliadau Ariannol er mwyn cydymffurfio â'r newidiadau i God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys.

6.2 Mynegodd yr Aelodau bryder am gynaliadwyedd y costau refeniw cyfalaf ar gyfer y blynyddoedd i ddod (Atodiad A, paragraff 4.2 'ratio of financing costs to net revenue stream') ac awgrymu y dylid edrych yn agosach ar y maes hwn yn yr ymarferiadau gosod y gyllideb yn y dyfodol. Byddai'r pryder hwn yn cael ei adrodd i'r Awdurdod llawn.

6.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob un o'r pum elfen allweddol yn yr adroddiadau, ac argymell y rhain i'r Awdurdod Tân:**

**(i) Dangosyddion Darbodus;**
**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2010/2011;**
**(iii) Strategaeth Buddsoddi;**
**(iv) Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw;**
**(v) Adolygu Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod Tân.**

7 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL

7.1 Strategaeth gyffredinol yr Archwilio Mewnol yw:

"I gyflwyno cynllun archwilio yn seiliedig ar risg mewn modd proffesiynol, annibynnol, i ddarparu barn ar y lefel o sicrwydd y gellir ei roi i'r sefydliad ar amgylchedd y rheolaeth fewnol, ac i wneud argymhellion i'w wella."

7.2 Esboniodd Mike Halstead fod tîm Archwilio Mewnol Conwy yn cynnal asesiad o anghenion archwilio'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn rhoi graddiad risg yn erbyn pob gweithgaredd. Yna, defnyddir yr wybodaeth i lunio cynllun yn seiliedig ar risg i bennu rhaglen waith am gylch rhaglen 4 blynedd. Mae'r Tîm Archwilio Mewnol yn dibynnu ar waith KPMG ynglŷn â rheoli perfformiad.

7.3 Cafodd yr Aelodau eu harwain trwy'r cynllun archwilio mewnol gan Mike Halstead, a nodwyd bod asesiad risg yn cael ei gynnal ymhob un o'r gweithgareddau, ac yn cael eu graddio rhwng A (risg uchel) a D (risg isel). Roedd rhai gweithgareddau oedd yn cael eu graddio fel rhai 'A' heb gael

eu harchwilio oherwydd eu bod yn cael eu monitro'n agos ac yn rheolaidd. **Gofynnodd yr aelodau fod y golofn sylwadau yn cael ei llenwi erbyn cyfarfod y dyfodol, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am bob gweithgarwch.**

7.4 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Clerc am allu cyfyngedig y gwaith archwilio, ac na ellir gwneud pob gwaith cylchol blynyddol ymhob blwyddyn. Felly, rhoddir ystyriaeth i'r defnydd gorau o'r amser a'r gallu archwilio sydd ar gael wrth lunio'r cynllun gwaith. Nodwyd a chymeradwywyd hyn.

7.5 Nodwyd y bydd gwybodaeth am y rhaglen waith ar gyfer 2010-11 yn cael ei darparu yn y cyfarfod nesaf, ynghyd â'r adroddiad canlyniadau ar gyfer 2009-10.

7.6 **PENDERFYNWYD derbyn y Strategaeth Archwilio Mewnol 2008–2012.**